Briff Ymchwil

# Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Canllaw rhagarweiniol

Awdur: **Nia Moss & Elisabeth Jones**

Dyddiad: **Medi 2017**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Nia Moss Y Gwasanaeth Ymchwil & Elisabeth Jones, Prif Gynghorydd Cyfreithiol**
Dyddiad: **Medi 2017**
Rhif Papur: **17-018**

## Cysylltwch â ni

**Nia Moss**
**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: 0300 200 6313
: Nia.Moss@Cynulliad.Cymru
: Cynulliad.Cymru/Pigion
: @SeneddYmchwil
: Cynulliad.Cymru/Ymchwil

**Elisabeth Jones**
**Prif Gynghorydd Cyfreithiol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: 0300 200 6432
: Elisabeth.Jones@Cynulliad.Cymru

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Canllaw rhagarweiniol

Trosolwg o'r papur: Ar 13 Gorffennaf 2017 cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Mae'r Bil yn nodi'r gweithdrefnau a'r prosesau ar gyfer trosglwyddo corff cyfredol cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn gyfraith y Deyrnas Unedig wrth i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r papur hwn yn rhoi canllaw rhagarweiniol i ddarpariaethau allweddol y Bil, pam mae angen y Bil, y llinell amser ddisgwyliedig ar gyfer y Bil a sut bydd y Bil yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a phwerau Gweinidogion Cymru.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 1

2. Darpariaethau allweddol yn y Bil ........ 1

Beth fydd y Bil Ymadael yn ei wneud? ........ 1

Pam mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu bod angen iddi ddiddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972? ........ 2

Pam mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu bod angen i'r Bil drosi cyfraith bresennol yr Undeb Ewropeaidd yn gyfraith ddomestig, a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol? ........ 3

Pa rai o gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd sydd mewn grym ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig? ........ 3

Sut mae'r Bil yn bwriadu trosi cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn gyfraith y Deyrnas Unedig? ........ 5

A fydd gan gyfraith y Deyrnas Unedig oruchafiaeth dros Gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd? ........ 6

Os mai prif nod y Bil yw parhad, pam mae'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion newid corff 'cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir'? ........ 7

Beth yw'r gwahaniaethau rhwng y pwerau a roddir i Weinidogion y Deyrnas Unedig i gywiro cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, a'r pwerau a roddir i Weinidogion datganoledig? ........ 8

Pa bwerau eraill a roddir i Weinidogion gan y Bil? ........ 9

Pam mae'r pwerau rheoleiddio a roddir i Weinidogion yn y Bil yn cael eu cwestiynu gan rai? ........ 10

Pa reolaethau sy'n cael eu rhoi ar bwerau Gweinidogion gan y Bil? ........ 11

Sut mae'r Bil yn effeithio ar gymhwysedd y Cynulliad i basio deddfau? ........ 13

A fydd y Bil yn newid Deddf Llywodraeth Cymru mewn unrhyw ffordd arall? ........ 19

A fydd angen Cydsyniad Deddfwriaethol y Cynulliad ar y Bil? ........ 19

Beth yw'r amserlen ar gyfer y Bil? ........ 20

Beth oedd yr ymateb cychwynnol i'r Bil? ........ 20

# 1. Cyflwyniad

Ar 13 Gorffennaf 2017 cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig **Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** i Dŷ'r Cyffredin. Bu disgwyl mawr am y Bil, y cyfeiriwyd yn flaenorol ato fel y 'Bil Diddymu'. Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig **Bapur Gwyn** ar ei chynigion ar gyfer y Bil ym mis Mawrth 2017. Y prif ddibenion yw:

- diddymu **Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972**, sef y Ddeddf y daw cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig yn ei sgil ar hyn o bryd, ond
- sicrhau bod deddfau'r Undeb Ewropeaidd sydd ar waith ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig yn cael eu cadw ar y diwrnod y mae'r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw rhoi sicrwydd i fusnesau a dinasyddion y Deyrnas Unedig fod yr un deddfau, rheolau, hawliau a rhwymedigaethau sy'n berthnasol iddynt y diwrnod cyn y daw'r Deyrnas Unedig allan o'r Undeb Ewropeaidd yn gymwys y diwrnod dilynol, ac nad oes 'tyllau du' yn ymddangos yn llyfr statud y Deyrnas Unedig dros nos.

Er bod nod y Bil yn glir, mae'r broses o drosi cyfraith bresennol yr Undeb Ewropeaidd i gyfraith y Deyrnas Unedig yn gymhleth. Ni fydd llawer o'r deddfau a fydd yn cael eu cadw gan y Bil yn gwneud synnwyr unwaith y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, a bydd angen eu diwygio i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol yn y dyfodol. Er enghraifft, bydd rhai o'r cyfreithiau a fydd yn cael eu trosi o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn gyfraith y Deyrnas Unedig yn cyfeirio at sefydliadau neu gyrff yr Undeb Ewropeaidd, na fydd y Deyrnas Unedig yn aelod ohonynt erbyn hynny. Gan hynny, mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion y Deyrnas Unedig a gweinidogion datganoledig wneud diwygiadau i'r deddfau a gedwir dan y Bil. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaethau ynghylch y gofyniad presennol lle gall deddfwrfeydd datganoledig y Deyrnas Unedig basio deddfau sy'n gydnaws â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn unig. Mae'r Bil yn dileu'r gofyniad presennol ond yn ei ddisodli gyda chyfyngiad newydd.

Dywed Llywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd y Bil yn darparu sefydlogrwydd i fusnesau a dinasyddion. Fodd bynnag, mae Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru wedi beirniadu'r Bil am ei effaith ar y setliadau datganoli. Bu trafodaeth hefyd yn Senedd y Deyrnas Unedig a'r deddfwrfeydd datganoledig ynghylch y pwerau cymharol eang a roddir i weinidogion yn y Bil a sut dylid fframio a rheoli'r rhain yn briodol.

Mae'r papur hwn yn rhoi canllaw rhagarweiniol i ddarpariaethau allweddol y Bil; yn ceisio egluro pam mae angen y Bil; yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud a sut mae'n bwriadu gwneud hynny; pa effaith fydd hynny'n ei gael ar ddatganoli a; beth fu'r ymatebion cychwynnol i'r Bil.

# 2. Darpariaethau allweddol yn y Bil

### Beth fydd y Bil Ymadael yn ei wneud?

Bydd y Bil Ymadael yn gwneud tri phrif beth:

- Diddymu **Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972** o ddyddiad yn y dyfodol sydd eto i'w benderfynu, a adnabyddir yn y Bil fel y "diwrnod ymadael", ond nad yw'n cael ei ddiffinio fel y diwrnod y mae'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd mewn gwirionedd;

– Diogelu corff cyfraith bresennol yr Undeb Ewropeaidd, fel y bydd ar yr adeg y bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, fel cyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig; a

– Rhoi pwerau is-deddfwriaethol i weinidogion allu gwneud cywiriadau i gorff cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir gan y Bil i'w wneud yn ymarferol ac yn effeithiol.

Y prif nod yw darparu sicrwydd cyfreithiol ar y diwrnod y bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd fel bod y deddfau a'r rheolau sy'n berthnasol i fusnesau a dinasyddion y foment cyn i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn gymwys o'r foment ar ôl hynny.

## Pam mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu bod angen iddi ddiddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972?

Mae'n ofynnol i holl Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd ddilyn cyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd yn eu tiriogaethau. Yn y Deyrnas Unedig, y brif ffordd y mae cyfraith Ewropeaidd yn dod yn gyfraith yn y Deyrnas Unedig yw drwy **Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972**. Disgrifir y Ddeddf fel y 'brif bibell ddargludo' y mae cyfraith Ewrop yn llifo drwyddi i gyfraith y Deyrnas Unedig.

Mae'r cyfreithiau'n llifo drwy'r bibell mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, mae adran 2(1) o'r Ddeddf yn darparu bod rhai hawliau a chyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd yn gymwys yn awtomatig neu'n uniongyrchol yn y Deyrnas Unedig pan maent yn cael eu mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhain yn cynnwys hawliau a gynhwysir yn y cytundebau sy'n nodi'r rheolau ynghylch aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd a rheoliadau a basiwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ar feysydd fel plaladdwyr, pysgota, rheoleiddio cemegau a ffermio.

Yn ail, mae adran 2(2) o'r Ddeddf yn rhoi pwerau i weinidogion y Deyrnas Unedig a gweinidogion datganoledig gyflwyno is-deddfwriaeth i weithredu darnau o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd nad ydynt yn gymwys yn awtomatig yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys is-ddeddfwriaeth i weithredu Cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd ar feysydd fel cadwraeth natur, dŵr ac ansawdd aer. Er enghraifft, mae'r Deyrnas Unedig a'r gweinidogion datganoledig wedi defnyddio'r pwerau hyn i gyflwyno **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010** sy'n nodi'r rheoliadau sy'n llywodraethu rheoli safleoedd cadwraeth natur gwarchodedig yn y Deyrnas Unedig a gweithredu Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yr Undeb Ewropeaidd.

Wrth ddiddymu'r Ddeddf, bydd y Bil yn egluro bod y 'bibell ddargludo' y mae cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn llifo drwyddi i gyfraith y Deyrnas Unedig yn cael ei chau, ac na fydd cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn gallu llifo i gyfraith y Deyrnas Unedig ar ôl hynny. Mae rhai academyddion wedi dadlau y byddai'r ataliad hwn yn digwydd yn awtomatig pan fyddai'r Deyrnas Unedig yn peidio â bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

**Darpariaethau allweddol: Mae Cymal 1 y Bil yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Caiff y Ddeddf ei diddymu o'r hyn y mae'r Bil yn ei alw'n 'ddiwrnod ymadael'. Ni chynhwysir dyddiad penodol ar gyfer y diwrnod ymadael ar wyneb y Bil. Mae gan Weinidogion y Deyrnas Unedig y pŵer i ddynodi dyddiad ac amser fel "diwrnod ymadael".**

## Pam mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu bod angen i'r Bil drosi cyfraith bresennol yr Undeb Ewropeaidd yn gyfraith ddomestig, a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?

Pe bai'r Bil yn diddymu **Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972** yn unig, ac yn peidio â gwneud unrhyw beth i ddiogelu cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn benodol yng nghyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig, byddai unrhyw ddeddf sy'n dibynnu ar y Ddeddf honno am ei bodolaeth yn syml yn cwympo. Byddai hyn yn wir am hawliau a chyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd sy'n gymwys yn awtomatig neu'n uniongyrchol yn y Deyrnas Unedig a'r is-ddeddfwriaeth a ddefnyddir i weithredu cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig.

Er enghraifft, mae rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gynhyrchion cosmetig yn nodi'r rheolau ar asesu, goruchwylio a labelu cynhyrchion cosmetig fel siampŵ a gel cawod. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol yn uniongyrchol i gwmnïau cosmetig y Deyrnas Unedig oherwydd adran 2(1) o Ddeddf 1972. Pe bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn diddymu **Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972** funud ar ôl hanner nos ar y diwrnod ymadael heb wneud unrhyw beth i drosi cyfraith Undeb Ewropeaidd yn gyfraith y Deyrnas Unedig, yna byddai'r **rheolau ar gynhyrchion cosmetig** yn peidio â bod yn gymwys. Byddai hyn yn golygu na fyddai rheolau ar beth fyddai angen ei nodi ar labeli ar boteli siampŵ a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig. Byddai hyn yn creu ansicrwydd ar gyfer gwneuthurwyr a defnyddwyr.

Drwy drosi cyfraith yr Undeb Ewropeaidd sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig cyn y diwrnod ymadael i'r gyfraith ddomestig, bydd y Bil yn sicrhau na fydd bylchau mewn deddfwriaeth yn ymddangos ar y diwrnod y mae'r Deyrnas Unedig yn ymadael ac y bydd Deddf 1972 yn cael ei diddymu.

Ni fydd trosi'r gyfraith yn golygu y bydd holl ddeddfau cyfredol yr Undeb Ewropeaidd yn gymwys am gyfnod amhenodol yn y Deyrnas Unedig. Ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, bydd Senedd y Deyrnas Unedig a'r deddfwrfeydd datganoledig lle bo'n briodol yn gallu addasu neu ddiddymu deddfau'r Undeb Ewropeaidd a droswyd yn ddeddfwriaeth ddomestig yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, gall y graddau y gallant wneud hyn gael eu cyfyngu gan yr hyn y cytunir arno gyda'r Undeb Ewropeaidd mewn unrhyw fargen fasnachol yn y dyfodol neu yn y cytundeb tynnu'n ôl ei hun. Er enghraifft, bydd gofyniad mewn cytundeb masnach ar gyfer bwyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig i gwrdd â'r un safonau lles anifeiliaid â'r Undeb Ewropeaidd yn cyfyngu ar y graddau y gall deddfwrfeydd y Deyrnas Unedig ddiwygio corff cyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar les anifeiliaid.

**Darpariaethau allweddol: Mae Cymalau 2, 3 a 4 y Bil yn nodi pa elfennau o gyfraith gyfredol yr Undeb Ewropeaidd fydd yn cael eu trosi i gyfraith y Deyrnas Unedig ar y diwrnod ymadael.**

Pa rai o gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd sydd mewn grym ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig?

Mae'r Bil yn grwpio cyfraith yr Undeb Ewropeaidd sydd mewn grym ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig yn dri chategori eang. Dangosir y rhain yn y diagram isod. Cyfeirir at y categori cyntaf yng nghymal 2 o'r Bil fel 'deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd'. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys deddfau domestig y Deyrnas Unedig sydd wedi cael eu pasio'n barod gan Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwrfeydd datganoledig i weithredu gofynion cyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

Un enghraifft yng Nghymru fyddai **Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) 2016.** Roedd y rheoliadau hyn a basiwyd gan y Cynulliad yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu

traeth ychwanegol, Traeth Gwledig Aberdyfi, at y rhestr o draethau y mae'n rhaid i ansawdd y dŵr ymdrochi gael ei asesu'n rheolaidd o dan ofynion Cyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi'r Undeb Ewropeaidd. Cyflwynwyd y rheoliadau gan ddefnyddio pwerau sydd gan Weinidog Cymru o dan **Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.** Mae nifer sylweddol o gyfreithiau'r Deyrnas Unedig yn y categori cyntaf hwn a fydd yn cael eu cadw gan y Bil.

Cyfeirir at yr ail gategori yng nghymal 3 o'r Bil fel 'deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd'. Dyma'r categori o gyfreithiau, unwaith y cânt eu mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, sy'n gymwys yn awtomatig yn y Deyrnas Unedig heb fod angen i Senedd y Deyrnas Unedig na deddfwrfeydd datganoledig basio deddfwriaeth ychwanegol i'w gweithredu. Enghraifft o hyn fyddai **rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar labelu bwyd**. Mae rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd sy'n nodi pa alergenau fel glwten neu gnau y mae angen eu hargraffu ar labeli bwyd yn gymwys yn awtomatig yn y Deyrnas Unedig heb i Senedd y Deyrnas Unedig na'r deddfwrfeydd datganoledig orfod deddfu ar wahân.

Mae'r trydydd categori sydd wedi ei gynnwys yn y Bil yn cynnwys agweddau eraill ar gyfraith yr Undeb Ewropeaidd sy'n berthnasol yn uniongyrchol nad yw'n unol â'r diffiniad yng nghymal 3. Mae'r categori hwn yn cynnwys hawliau a rhwymedigaethau ar gyfer dinasyddion a busnesau a gynhwysir yng nghytundebau'r Undeb Ewropeaidd; er enghraifft, yr hawl i bobl a nwyddau symud yn rhwydd. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys cyfraith achosion Llys Cyfiawnder Ewrop, yn y modd y mae'n dehongli ac yn gorfodi'r hawliau, rhwymedigaethau ac ati hynny. Fodd bynnag, ni fydd y Bil yn trosi hawliau a rhwymedigaethau a gynhwysir yn y Siarter Hawliau Sylfaenol, gan fod y rhain wedi eu heithrio'n benodol dan gymal 5(4).

Bydd y Bil yn cadw'r tri chategori o gyfraith fel cyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig ar y diwrnod ymadael. Gyda'i gilydd, bydd y tri chategori hyn o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu galw'n 'gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir'.

**Darpariaethau allweddol: Mae Cymal 2 yn diffinio ac yn cadw 'deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd'. Mae Cymal 3 yn diffinio ac yn trosi 'deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd'. Mae Cymal 4 yn cadw mathau eraill o gyfraith uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd a ddisgrifir fel unrhyw hawl, pŵer, atebolrwydd, rhwymedigaeth, cyfyngiad, datrysiad a gweithdrefn sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd sydd ar gael ac sydd wedi ei orfodi yng nghyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Mae Cymal 5(4) yn eithrio'n benodol y Siarter Hawliau Sylfaenol o'r categori a ddisgrifir yng Nghymal 4**.

**Y tri chategori o "gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir"**

**Categori 1:** Cyfraith y Deyrnas Unedig cyn ymadael sy'n seiliedig ar gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ac a ddefnyddiwyd i roi gofynion yr Undeb Ewropeaidd ar waith yng nghyfraith y Deyrnas Unedig (yn seiliedig ar Gyfarwyddebau yn bennaf).

"Deddfwriaeth ddomestig a ddeilliodd o'r Undeb Ewropeaidd" – Cymal 2.

**Categori 2:** Rheoliadau, penderfyniadau a deddfwriaeth diriogaethol yr Undeb Ewropeaidd. Nid oes angen rhoi hyn ar waith yng nghyfraith y Deyrnas Unedig cyn Brexit.

"deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd"- Cymal 3.

**Categori 3:** Cyfreithiau eraill yr Undeb Ewropeaidd sy'n gymwys yn uniongyrchol yng nghyfraith y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd - Erthyglau Cytundebau sy'n cael effaith uniongyrchol, egwyddorion cyffredinol cyfraith yr Undeb Ewropeaidd, cyfraith achosion Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (ond nid y Siarter).

Cymalau 4 a 5(4).

## Sut mae'r Bil yn bwriadu trosi cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn gyfraith y Deyrnas Unedig?

Mae'r Bil yn datgan yn benodol y bydd y tri chategori o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir', yn parhau i fod yn gymwys ar ôl y diwrnod ymadael fel y maent yn gymwys yn awr. Nodir yng Nghymal 2 ar ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd y bydd deddfwriaeth y Deyrnas Unedig sy'n gweithredu gofynion yr Undeb Ewropeaidd yn gweithredu ac yn cael yr un effaith ar ôl y diwrnod ymadael ag yr oedd cyn hynny. Nodir yng Nghymal 3 ar 'ddeddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd' y bydd holl ddeddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd sy'n 'weithredol' yn y Deyrnas Unedig yn union cyn y diwrnod ymadael yn dod yn gyfraith y Deyrnas Unedig ar y diwrnod ymadael. Nodir yng Nghymal 4 y bydd unrhyw hawl, pŵer, atebolrwydd, rhwymedigaeth, cyfyngiad, datrysiad a gweithdrefn a oedd yn cael effaith uniongyrchol yn y Deyrnas Unedig yn union cyn y diwrnod ymadael ar gael ar ôl y diwrnod ymadael fel yr oeddent o'r blaen.

Bydd deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd - rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd, penderfyniadau sy'n berthnasol i'r Deyrnas Unedig a deddfwriaeth drydyddol - yn cael eu hargraffu a'u cyhoeddi yn yr un modd â Deddfau ac is-ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, fel y gall dinasyddion ddod yn fwy ymwybodol o fodolaeth y mathau hyn o gyfraith o fewn system gyfreithiol y Deyrnas Unedig o ganlyniad i gymal 3 y Bil. Bydd y pedwar prif gytundeb yn system yr Undeb Ewropeaidd /yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cael eu hargraffu a'u cyhoeddi yn yr un modd; maent yn enghreifftiau o gyfraith a drosglwyddwyd i gyfraith y Deyrnas Unedig o dan gymal 4. Gellir hefyd argraffu a chyhoeddi dogfennau eraill yr Undeb Ewropeaidd sydd yng nghategori cymal 4, a chyfraith achosion Llys Cyfiawnder Ewrop yn y modd hwn, ond nid oes yn rhaid i hynny ddigwydd.

Mae rhai eithriadau yn y Bil i'r rheol gyffredinol y bydd holl gyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei throsi'n awtomatig yn gyfraith y Deyrnas Unedig. Mae'r eithriadau hyn yn cynnwys: y Siarter Hawliau Sylfaenol, na chaiff ei throsi; Unrhyw benderfyniad gan yr Undeb Ewropeaidd a wneir mewn perthynas â'r Polisi Tramor a Diogelwch Cyffredin; unrhyw benderfyniad gan yr Undeb Ewropeaidd nad ydynt yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig; ac unrhyw ddarpariaeth cytundeb neu ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd y bu i'r Deyrnas Unedig sicrhau eithriadau rhagddi. Er enghraifft, mae gan y Deyrnas Unedig eithriad mewn perthynas â chytundeb Schengen a ddiddymodd reolaethau ffiniau rhwng Aelod-wladwriaethau.

**Darpariaethau allweddol yn y Bil: Mae Cymal 2, 3 a 4 yn cadw cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yng nghyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig. Mae Cymal 5(4), Atodlen 1 ac Atodlen 6 yn cynnwys y darpariaethau ar y meysydd cyfraith a fydd yn cael eu heithrio o'r egwyddor gyffredinol y bydd yr holl ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei throsi.**

## A fydd gan gyfraith y Deyrnas Unedig oruchafiaeth dros Gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd?

Ar hyn o bryd mae gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd oruchafiaeth dros gyfraith y Deyrnas Unedig. Pe bai Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwrfa ddatganoledig yn pasio darn o ddeddfwriaeth a oedd yn anghydnaws â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd, ni fyddai ganddo unrhyw effaith gyfreithiol gan fod cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn drech na chyfraith y Deyrnas Unedig, mewn gair. Gall llysoedd y Deyrnas Unedig ddiddymu Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig, hyd yn oed, sy'n anghyson â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd, a gallant wneud yr un peth â Deddfau'r deddfwrfeydd datganoledig a chydag is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, pe bai'r Cynulliad yn pasio cyfraith ar ailgylchu a oedd â safonau ailgylchu is na safonau Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd, byddai Deddf Cymru yn cael ei diddymu.

Nodir yng Nghymal 5 o'r Bil y bydd unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig a gaiff ei basio ar ôl y diwrnod ymadael yn cael goruchafiaeth yn y Deyrnas Unedig hyd yn oed os yw'n gwrth-ddweud darnau o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir gan y Bil. Fodd bynnag, bydd darn o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir yn dal yn 'drech' na darn o gyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig a basiwyd cyn y diwrnod ymadael.

Wrth ddehongli'r gyfraith ar hyn o bryd, mae llysoedd a thribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig wedi eu rhwymo gan ddyfarniadau a wnaed gan Lys Cyfiawnder Ewrop. Mae hyn eto oherwydd bod gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd oruchafiaeth dros gyfraith y Deyrnas Unedig. Yn dilyn y diwrnod ymadael, ni fydd Llysoedd y Deyrnas Unedig yn rhwym i benderfyniadau Llys Cyfiawnder Ewrop a wneir ar ôl y diwrnod ymadael, er y gallant eu hystyried a'u dilyn os dymunant.

Fodd bynnag, bydd Llysoedd a thribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig yn parhau i gael eu rhwymo gan ddyfarniadau a wnaed gan Lys Cyfiawnder Ewrop cyn y diwrnod ymadael mewn perthynas â chorff cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir gan y Bil. Gwneir hyn i sicrhau parhad yn y ffordd y caiff y gyfraith ei dehongli ar ôl y diwrnod ymadael. Yr eithriad yw Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig. Gan mai hwn fydd llys y dewis olaf ar ôl Brexit, gan gynnwys ar gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, mae angen iddo allu fod yn rhydd o benderfyniadau Llys Cyfiawnder Ewrop cyn ymadael – yn un peth oherwydd y gallai Llys Cyfiawnder Ewrop ei hun newid ei feddwl yn y cyfamser. Gan hynny, bydd y Goruchaf Lys yn gallu gwneud ymadawiadau o'r fath, ond dim ond dan yr un amgylchiadau eithriadol pan fyddai'n goresgyn ei gyfraith achosion flaenorol ei hun.

Mae Llywydd Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig sydd ar fin gorffen ei swydd, yr Arglwydd Neuberger, wedi gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig roi rhagor o eglurder yn y Bil ar beth ddylai barnwyr ei wneud ynghylch penderfyniadau Llys Cyfiawnder Ewrop ar ôl Brexit. Dywedodd yr Arglwydd Neuberger y byddai barnwyr yn gobeithio ac yn disgwyl i'r Senedd, wrth ystyried y Bil, sôn am sut y byddai'r barnwyr yn mynd i'r afael â'r math hwnnw o fater ar ôl Brexit a'i nodi mewn statud.

**Darpariaethau allweddol: Mae Cymal 5 o'r Bil yn nodi'r meysydd lle na fydd cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn cael goruchafiaeth ar ôl y diwrnod ymadael. Mae Cymal 6 o'r Bil yn nodi sut dylai Llysoedd a thribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig ddehongli corff cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir a addaswyd neu a gadwyd gan gymalau 2, 3 a 4 y Bil**.

## Os mai prif nod y Bil yw parhad, pam mae'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion newid corff 'cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir'?

Mae Cymalau 7 a 10 ac Atodlen 2 y Bil yn rhoi pwerau deddfu eang i Weinidogion y Deyrnas Unedig a Gweinidogion datganoledig i ddiwygio corff cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a fydd yn cael ei gadw yng nghyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig drwy'r Bil. Gwneir hyn er mwyn caniatáu i Weinidogion sicrhau bod corff y gyfraith a drosglwyddir i gyfraith y Deyrnas Unedig yn ymarferol ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. Ni fydd llawer o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a fydd yn cael ei throsglwyddo yn gwneud synnwyr ar ôl gadael y Deyrnas Unedig oni bai ei bod yn cael ei haddasu mewn rhyw ffordd. Er enghraifft, mae rhywfaint o'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd na fydd y Deyrnas Unedig yn aelod ohonynt mwyach, fel y Comisiwn Ewropeaidd, yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd neu'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd. Yn ogystal, ni fydd cyfraith a gedwir sy'n dibynnu ar drefniadau cyfatebol gydag Aelod-wladwriaethau eraill, fel rhannu gwybodaeth am awdurdodiadau plaladdwyr neu Organeddau a Addaswyd yn Enetig, neu'n wir y darpariaethau cytundeb ar ryddid i symud, yn gwneud synnwyr gan na fydd y Deyrnas Unedig bellach yn Aelod-wladwriaeth. Dim ond am hyd at ddwy flynedd ar ôl y diwrnod ymadael y bydd Gweinidogion yn gallu gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau hyn. Bydd y rheoliadau a wneir yn gallu gwneud unrhyw beth y gallai Deddf Seneddol ei wneud - gan gynnwys diddymu neu ddiwygio Deddfau Seneddol neu Ddeddfau presennol y deddfwrfeydd datganoledig.

Mae'r pwerau a roddir i weinidogion datganoledig yn debyg, ond yn wahanol, i'r pwerau a roddir i Weinidogion y Deyrnas Unedig. Esbonnir gwahaniaethau allweddol yn yr ymateb i'r cwestiwn nesaf yn y papur hwn.

Nododd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd, David Davis, fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhagweld y bydd angen iddi gyflwyno hyd at 1000 o ddarnau o is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio ei phwerau o dan Gymal 7 o'r Bil i gywiro cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a droswyd gan y Bil cyn i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd (er na fydd y fersiynau wedi eu cywiro, fel rheol, yn dod i rym tan y diwrnod ymadael). Bydd angen i Weinidogion Datganoledig hefyd gywiro deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd yn eu meysydd cyfrifoldeb. Dywed Llywodraeth y Deyrnas Unedig, oherwydd y swm mawr o ddeddfwriaeth y mae angen ei chywiro, na fyddai'n bosibl gwneud yr holl gywiriadau hyn mewn deddfwriaeth sylfaenol fel Deddfau Seneddol neu Ddeddfau'r deddfwrfeydd datganoledig, ac felly mae angen pwerau deddfu yn y Bil.

Er bod yr angen am y pwerau deddfu hyn wedi cael ei gydnabod yn eang, mae pwyllgorau craffu yn y Cynulliad ac yn San Steffan wedi galw am i'r pwerau fod yn gyfyngedig ac wedi'u rheoli'n llym i sicrhau bod deddfwrfeydd yn craffu arnynt ac yn eu goruchwylio'n briodol.

Mae Pwyllgorau Materion Allanol a Materion Cyfansoddiadol y Cynulliad wedi dod i'r casgliad y dylai fod yn fater i'r Cynulliad ei hun benderfynu pa bwerau a gaiff Gweinidogion Cymru i gywiro cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir mewn meysydd polisi datganoledig. Ni adlewyrchir hyn yn y Bil, gan ei fod yn nodi'r pwerau a roddir i bob gweinidog, rhai'r Deyrnas Unedig a'r gweinidogion datganoledig, ar ei wyneb.

**Darpariaethau allweddol: Mae Cymal 7 yn amlinellu'r pwerau a roddir i Weinidogion y Deyrnas Unedig er mwyn gwneud addasiadau i 'atal, gwella neu liniaru' unrhyw fethiant yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir i weithredu'n effeithiol ar ôl Brexit, neu i ddelio ag unrhyw ddiffyg arall yn y corff hwnnw o gyfraith sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig yn tynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd. Nodir yng Nghymal 10 bod pwerau tebyg i Weinidogion datganoledig wneud newidiadau wedi eu nodi yn Atodlen 2 y Bil. Nodir yn Atodlen 2 beth yw pwerau Gweinidogion yn y sefydliadau datganoledig.**

## Beth yw'r gwahaniaethau rhwng y pwerau a roddir i Weinidogion y Deyrnas Unedig i gywiro cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, a'r pwerau a roddir i Weinidogion datganoledig?

Rhoddir pwerau i Weinidogion Datganoledig wneud newidiadau o fewn cymhwysedd eu deddfwrfeydd, neu eu pwerau rheoleiddio presennol eu hunain lle mae'r rheiny'n ehangach. Rhoddir pwerau i Weinidogion y Deyrnas Unedig newid **unrhyw** agwedd ar ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a gedwir - gan gynnwys deddfwriaeth mewn meysydd polisi datganoledig a'r rhai sy'n effeithio ar y gwledydd datganoledig. Mae'r **Nodiadau Esboniadol** sy'n ategu'r Bil yn datgan na fyddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn defnyddio'r pwerau "cydamserol" hyn mewn meysydd datganoledig heb ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig yn gyntaf, ond nid oes gofyniad ar wyneb y Bil iddynt wneud hynny. Fel rheol, dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd ofyn i'r Cynulliad am ei gydsyniad ar gyfer unrhyw reoliad sy'n effeithio ar ddeddfwriaeth sylfaenol mewn ffordd sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad (pa un ai a basiwyd y ddeddfwriaeth sylfaenol honno gan San Steffan neu'r Cynulliad).

Dim ond i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd y caiff Gweinidogion Datganoledig wneud newidiadau, h.y. y categori cyntaf o gyfraith a ddisgrifir uchod ac y deliwyd ag ef yng Nghymal 2 o'r Bil. Yn wahanol i Weinidogion y Deyrnas Unedig, ni fyddant yn gallu gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yn uniongyrchol i'r Undeb Ewropeaidd, h.y. yr ail a'r trydydd gategori a ddisgrifir uchod ac yng Nghymalau 3 a 4 y Bil. Er enghraifft, ni fydd y Gweinidogion datganoledig yn gallu gwneud newidiadau i lawer o'r ddeddfwriaeth ar y polisi amaethyddol cyffredin na'r polisi pysgodfeydd cyffredin sy'n dod o fewn y categorïau hyn. Ni fyddant chwaith yn gallu gwneud rheoliadau a fyddai'n anghydnaws â'r modd y mae Gweinidogion y Deyrnas Unedig yn dewis addasu'r categorïau hynny o gyfraith.

Bydd Gweinidogion y Deyrnas Unedig yn gallu rhoi'r grym i gyrff eraill wneud rheoliadau o fewn cwmpas y Bil - sy'n cynnwys y grym i wneud penderfyniadau ynghylch cynnwys y rheoliadau hynny - ond ni fydd gweinidogion datganoledig yn gallu gwneud hynny.

Wrth wneud newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd, bydd gofyn i Weinidogion datganoledig ofyn i Weinidogion y Deyrnas Unedig am ganiatâd i wneud rhai pethau. Mae'r rhain yn cynnwys ceisio caniatâd ar gyfer rheoliadau a fyddai'n dod i rym cyn y diwrnod ymadael a gofyn am ganiatâd lle byddai rheoliadau yn dileu trefniadau cyfatebol gydag Aelod-wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd neu un o gyrff yr Undeb Ewropeaidd.

**Darpariaethau allweddol: Mae Cymal 7 yn nodi'r pwerau a roddir i Weinidogion y Deyrnas Unedig; mae Cymal 10 ac Atodlen 2 yn nodi'r pwerau a roddir i weinidogion datganoledig**.

## Pa bwerau eraill a roddir i Weinidogion gan y Bil?

Mae Cymal 8 y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion y Deyrnas Unedig gyflwyno rheoliadau i atal y Deyrnas Unedig rhag torri unrhyw un o'i rwymedigaethau rhyngwladol o ganlyniad i dynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd. Er enghraifft, mae'r Deyrnas Unedig wedi llofnodi llawer o gytundebau rhyngwladol yn rhinwedd ei haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Wrth dynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd, bydd angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau bod ei holl rwymedigaethau cyfredol yn cael eu dyblygu'n briodol yn neddfwriaeth ddomestig y Deyrnas Unedig. Dim ond hyd at ddwy flynedd ar ôl y diwrnod ymadael y bydd Gweinidogion yn gallu gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau hyn.

Mae Cymal 9 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion y Deyrnas Unedig wneud unrhyw reoliad y maent o'r farn ei fod yn briodol i weithredu'r cytundeb tynnu'n ôl gyda'r Undeb Ewropeaidd. Dim ond tan y diwrnod ymadael y bydd Gweinidogion y Deyrnas Unedig yn gallu defnyddio'r pwerau hyn.

Bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio un o'r pwerau hyn yn gallu cynnwys unrhyw beth y gallai Deddf Seneddol ei wneud.

Rhoddir pwerau tebyg i Weinidogion Datganoledig wneud rheoliadau i atal torri unrhyw rwymedigaeth ryngwladol ac i weithredu'r cytundeb tynnu'n ôl mewn meysydd o fewn eu cymhwysedd deddfwriaethol neu eu pwerau gweithredol presennol. Yn yr un modd â'r pwerau i wneud rheoliadau i gywiro cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, ni fydd Gweinidogion datganoledig yn gallu defnyddio'r pwerau hyn i wneud newidiadau i gyfraith uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd, h.y. categorïau 2 a 3 a ddisgrifir uchod. Fodd bynnag, bydd y rheoliadau yn gallu gwneud unrhyw beth y gallai deddfwriaeth sylfaenol ei wneud, ac mae'r pwerau yn ddarostyngedig i'r un terfyn amser â rhai Gweinidogion y Deyrnas Unedig.

Rhoddir cyfyngiadau ychwanegol hefyd ar y pwerau a roddir i Weinidogion datganoledig. Fel yn achos y pŵer i 'gywiro' cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, ni fyddant yn gallu gwneud rheoliadau a fyddai'n anghydnaws â'r modd y mae Gweinidogion y Deyrnas Unedig yn dewis addasu'r categorïau hynny o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd sy'n uniongyrchol berthnasol i gyfraith y Deyrnas Unedig - y categorïau yr ymdriniwyd â hwy drwy gymalau 3 a 4 y Bil.

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Weinidogion Datganoledig geisio caniatâd Gweinidogion y Deyrnas Unedig wrth ddefnyddio'r pwerau hyn. O ran y pwerau ar rwymedigaethau rhyngwladol, ni all Gweinidogion datganoledig wneud rheoliadau sy'n ymwneud â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd nac unrhyw drefniant cwota presennol, fel y rhai ynghylch pysgodfeydd, heb ganiatâd ymlaen llaw gan Weinidogion y Deyrnas Unedig. Bydd angen caniatâd arnynt hefyd os ydynt am ddod â rheoliadau o'r fath i rym cyn y diwrnod ymadael.

O ran y pŵer i wneud rheoliadau i roi'r cytundeb tynnu'n ôl ar waith, ni all Gweinidogion datganoledig ddefnyddio'r rhain i wneud rheoliadau ar drefniadau cwota heb ganiatâd ymlaen llaw gan Weinidogion y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal, mae gan Weinidogion y Deyrnas Unedig bwerau cydamserol fel y gallant ddefnyddio'r pwerau a roddwyd iddynt drwy Gymalau 8 a 9 o'r Bil i basio rheoliadau mewn meysydd polisi datganoledig, fel y disgrifir uchod.

**Darpariaethau allweddol: Mae Cymal 8 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y Deyrnas Unedig wneud rheoliadau i atal y Deyrnas Unedig rhag torri unrhyw un o'i rwymedigaethau rhyngwladol o ganlyniad i dynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd. Mae Cymal 9 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion y Deyrnas Unedig wneud rheoliadau i weithredu'r cytundeb tynnu'n ôl. Mae Atodlen 2 yn cynnwys pwerau tebyg, ond mwy cyfyngedig, i weinidogion datganoledig**.

## Pam mae'r pwerau rheoleiddio a roddir i Weinidogion yn y Bil yn cael eu cwestiynu gan rai?

Fel y nodwyd uchod, mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Gweinidogion gyflwyno rheoliadau er mwyn:

– gwneud cywiriadau i gorff cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a drosglwyddir i gyfraith y Deyrnas Unedig fel ei fod yn gwneud synnwyr ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd;

– sicrhau na fydd y Deyrnas Unedig yn torri unrhyw un o'i rwymedigaethau rhyngwladol o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd; a

– gweithredu'r cytundeb tynnu'n ôl.

Gelwir y pwerau hyn yn bwerau is-deddfwriaeth. Mae'r math hwn o bwerau'n caniatáu i Weinidogion wneud newidiadau i'r gyfraith heb orfod cyflwyno Bil newydd yn y Senedd bob tro y mae'r Llywodraeth yn dymuno gwneud newidiadau i'r gyfraith. Yn aml maent yn cael eu defnyddio i nodi manylion am sut bydd cyfraith yn gweithredu ac yn gweithio; er enghraifft, nodi manylion unrhyw ddirwy y gallai Gweinidogion ei rhoi am dorri'r ddeddfwriaeth.

Gall y pwerau hyn fod yn ddadleuol weithiau oherwydd eu bod yn ddarostyngedig i ofynion craffu llai trylwyr na Biliau. Ni all Aelodau Seneddol na'r deddfwrfeydd datganoledig ddiwygio is-ddeddfwriaeth, fel y gallant gyda Biliau, a dim ond yn ei chyfanrwydd y gallant bleidleisio drosti neu yn ei herbyn. Gall rhai mathau o is-ddeddfwriaeth hefyd ddod i rym heb i ddeddfwrfeydd y Deyrnas Unedig orfod eu hystyried neu bleidleisio arnynt. Dyma'r hyn a elwir yn weithdrefn negyddol. Er hynny, nid oes angen craffu o gwbl ar fathau eraill o is-ddeddfwriaeth - is-ddeddfwriaeth 'a bennir yn unig', neu is-ddeddfwriaeth 'dim gweithdrefn'. Am y rhesymau hyn, mae deddfwrfeydd y Deyrnas Unedig yn aml yn amharod i roi pwerau is-ddeddfwriaeth i Weinidogion heb sicrhau eu bod yn cael eu llunio'n gaeth a heb fod yn sicr eu bod yn gwybod beth fydd y pwerau'n cael eu defnyddio i'w wneud. Rhywbeth sy'n arbennig o ddadleuol yw'r hyn a elwir yn bwerau 'Harri'r Wythfed'. Mae'r rhain yn bwerau sy'n caniatáu i Weinidogion newid neu hyd yn oed ddiddymu Deddfau gan ddefnyddio pwerau is-ddeddfwriaethol yn unig, a gwneud newidiadau arwyddocaol eraill - fel sefydlu corff cyhoeddus newydd - a fyddai fel arfer yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol.

Bydd y Bil yn rhoi pwerau is-ddeddfwriaethol eang iawn i weinidogion y Deyrnas Unedig a gweinidogion datganoledig. Gall llawer o'r rheoliadau a gyflwynwyd i gywiro corff cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir fod yn newidiadau technegol nad ydynt yn ddadleuol eu natur, ond mae'n bosibl y bydd rhai eraill yn fwy arwyddocaol.

Er enghraifft, mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion sefydlu cyrff newydd i gymryd lle cyrff presennol yr Undeb Ewropeaidd, fel Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd neu Asiantaeth Diogelwch Hedfan yr Undeb Ewropeaidd. Y mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion drosglwyddo dyletswyddau asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd i gyrff sy'n bodoli'n barod yn y Deyrnas Unedig. Mewn rhai achosion bydd y mathau hyn o reoliadau yn gofyn am benderfyniad polisi

sylweddol gan Weinidogion ynghylch pwy yw'r corff priodol, a ddylai corff newydd gael ei sefydlu a sut bydd y gwaith newydd hwn yn cael ei gyllido, a chan bwy.

Er y derbynnir yn gyffredinol bod yr angen i Weinidogion gael y pwerau hyn, oherwydd graddfa'r cywiriadau sydd eu hangen, mae Pwyllgorau yn y Cynulliad a San Steffan wedi pwysleisio'r angen i'r pwerau hyn gael eu rheoli a'u cyfyngu'n fanwl. Yn **ei adroddiad ar y Papur Gwyn** ar y Bil, nododd Pwyllgor Materion Allanol y Cynulliad:

> *Mae'r pŵer sy'n debygol o gael ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru yn eang ac oni chyfyngir ar y pŵer hwn mewn ffordd briodol, mae perygl iddo achosi diffyg cydbwysedd yn neinameg y pŵer rhwng y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa. Rydym yn cydnabod bod dadl o blaid dirprwyo pŵer i Weinidogion Cymru ac y bydd angen i'r pŵer hwn fod yn eang o ran y ddeddfwriaeth y mae'n berthnasol iddi.*
>
> *Fodd bynnag, mae'n rhaid cyfyngu'r pŵer hwn yn llym a'i ddefnyddio dim ond at yr hyn y'i bwriedir. Rydym yn cefnogi cais Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi am osod cyfyngiadau sylweddol ar y pŵer ar wyneb y Bil.*

Yn ogystal, nododd **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** y Cynulliad fod angen i'r pwerau a roddir i Weinidogion gael eu llunio'n gaeth. Mae Pwyllgorau'r Cynulliad a **Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi** wedi gwneud nifer o argymhellion ynghylch sut gellid rheoli'r pwerau, gan gynnwys cyfyngu'r pwerau cywiro i'r hyn sy'n hollol angenrheidiol i drosglwyddo cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn ymarferol; rhoi cymalau machlud ar y pwerau, a chael gweithdrefnau priodol ar waith i ganiatáu i ddeddfwrfeydd y Deyrnas Unedig ystyried y nifer fawr o reoliadau a ddygir ymlaen.

**Darpariaethau allweddol: Cymal 7, sy'n nodi'r pwerau a roddir i Weinidogion y Deyrnas Unedig, Cymal 10 ac Atodlen 2, sy'n nodi'r pwerau a roddir i Weinidogion datganoledig**.

## Pa reolaethau sy'n cael eu rhoi ar bwerau Gweinidogion gan y Bil?

Mewn ymateb i alwadau am gyfyngu'r pwerau rheoleiddio a roddir i Weinidogion, mae'r Bil yn cynnwys nifer o reolaethau a chyfyngiadau. Mae'r rhain yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig a'r Gweinidogion datganoledig (tra bod cyfyngiadau ychwanegol yn berthnasol i Weinidogion datganoledig, fel y disgrifir uchod):

- Mae darpariaethau machlud yn cael eu cynnwys ar y pwerau a roddir i Weinidogion. Bydd Gweinidogion yn gallu defnyddio eu pwerau rheoleiddiol i gywiro cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir yn unig, ynghyd ag atal torri rhwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig am ddwy flynedd ar ôl y diwrnod ymadael a phwerau i weithredu'r cytundeb tynnu'n ôl hyd y diwrnod ymadael.
- Ni fydd Gweinidogion yn gallu defnyddio eu pwerau cywiro i gynyddu trethi, gwneud newidiadau ôl-weithredol, creu trosedd newydd sy'n cario dedfryd bosibl o fwy na 2 flynedd o garchar, neu ddiwygio neu ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae Deddf Gogledd Iwerddon 1998 hefyd wedi ei diogelu rhag y rhan fwyaf o newidiadau. Rhoddir cyfyngiadau tebyg ar y pwerau mewn perthynas â rhwymedigaethau rhyngwladol a'r cytundeb tynnu'n ôl.
- Bydd yn rhaid i rai mathau o reoleiddio o dan Gymalau 7, 8, 9 ac Atodlen 2 fynd drwy'r hyn a elwir yn 'weithdrefn gadarnhaol ddrafft'. Dyma lle mae'n rhaid i San Steffan neu ddeddfwrfa ddatganoledig bleidleisio'n weithredol o blaid y rheoliadau i'w trosglwyddo. Mae'r rhain yn cynnwys rheoliadau sy'n

sefydlu awdurdod cyhoeddus, sy’n trosglwyddo pŵer neu swyddogaeth o un o gyrff yr Undeb Ewropeaidd i un o gyrff y Deyrnas Unedig, sy’n creu neu'n ehangu cwmpas trosedd neu'n rhoi pŵer i gorff arall wneud deddfwriaeth, neu sy'n ymwneud â ffioedd a godir gan awdurdod cyhoeddus.

- Bydd yr holl reoliadau eraill o dan y Bil, oni bai y cânt eu diwygio, yn destun gwaith craffu ysgafnach. Bydd y rhan fwyaf yn mynd drwy'r ‘weithdrefn negyddol’, lle bydd Gweinidogion yn gwneud rheoliadau ac y byddant yn parhau'n ddilys oni bai bod Aelod o'r ddeddfwrfa berthnasol yn gofyn am ddadl amdanynt o fewn 40 diwrnod, a bod y ddadl honno’n arwain at bleidlais yn erbyn y rheoliadau. Mae hynny’n achos prin iawn ac, yn Senedd y Deyrnas Unedig, nid yw'r Llefarydd bob amser yn caniatáu ceisiadau Aelodau am ddadl o'r fath. At hynny, bydd Gweinidogion yn gallu gwneud rhai rheoliadau o dan y Bil heb y lefel hon o graffu, hyd yn oed: gellir gwneud darpariaethau trosiannol, dros dro ac arbed heb unrhyw graffu o gwbl, hyd yn oed os ydynt yn newid deddfwriaeth sylfaenol; yn yr un modd â phŵer pwysig Gweinidogion y Deyrnas Unedig i bennu dyddiad ac amser y "diwrnod ymadael". Yn ogystal, lle mae Gweinidogion y Deyrnas Unedig o'r farn bod sefyllfa yn fater brys, byddant yn gallu osgoi'r ‘weithdrefn gadarnhaol drafft’ fwy trylwyr, gan ddefnyddio'r ‘weithdrefn gadarnhaol’ gymharol anarferol yn lle hynny. O dan y weithdrefn hon, bydd Gweinidogion yn gwneud rheoliadau, ond ni allant barhau mewn grym oni bai bod dau Dŷ’r Senedd yn eu cymeradwyo o fewn mis. Gan hynny, mae'r weithdrefn hon rhwng ‘cadarnhaol drafft’ a ‘negyddol’ o ran y cyfle i graffu. Nid yw'r dewis hwn o osgoi'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft mewn achosion brys yn agored i Weinidogion datganoledig.

Y rheolaeth allweddol ar bwerau Gweinidogol yw'r ffordd y diffinnir cwmpas y pwerau hynny fel rheol. Yn achos y pwerau yn y Bil, mae'r cwmpas yn eang mewn nifer o ffyrdd:

- Bydd Gweinidogion yn gallu defnyddio'r pwerau cywiro yng Nghymal 7 i wneud darpariaethau a fydd yn briodol yn eu barn hwy i fynd i'r afael â methiant neu ddiffyg yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir yn sgil y cytundeb tynnu'n ôl gyda'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r geiriau ‘a fydd yn briodol yn eu barn hwy’ yn rhoi disgresiwn eang i Weinidogion, tra bod rhai sylwebyddion wedi datgan bod y termau ‘methu â gweithredu'n effeithiol’, ‘diffyg’ ac ‘yn deillio o’ yn agored i ddehongliad eang.
- Mae'r pwerau yng nghymalau 8 a 9 hefyd yn cael eu geirio o ran yr hyn y mae Gweinidogion yn ei ystyried yn ‘briodol’. Yn achos cymal 9, gall Gweinidogion ddefnyddio'r rheoliadau i wneud unrhyw beth maent o’r farn ei fod yn briodol i weithredu'r cytundeb tynnu'n ôl, ac y maent o’r farn bod angen ei wneud cyn y diwrnod ymadael. Gan hynny, yr unig derfyn ar y pŵer hwn yw telerau cynnwys y cytundeb tynnu'n ôl ei hun - nad ydynt yn hysbys eto.

Bydd angen i Aelodau Seneddol a’r Arglwyddi benderfynu wrth iddynt graffu ar y Bil a yw'r rheolaethau a'r cyfyngiadau sydd yn y Bil yn ddigonol, a yw pwerau gweinidogol wedi eu llunio’n ddigon caeth ac a yw'r Bil yn bodloni'r argymhellion a wneir gan bwyllgorau dethol yn San Steffan a phwyllgorau craffu yn y deddfwrfeydd datganoledig.

**Darpariaethau allweddol: Mae cymalau 7, 8, 9 ac Atodlen 2 yn cynnwys cyfyngiadau ar faint o bwerau a roddir i Weinidogion. Mae Atodlen 7 yn nodi'r gweithdrefnau craffu a fydd yn berthnasol i reoliadau a ddygwyd ymlaen dan y Bil. Mae Cymal 17(5) ac atodlen 7 hefyd yn pennu pwerau Gweinidogion y Deyrnas Unedig i osgoi'r gweithdrefnau craffu mewn rhai achosion brys, ac mae'n nodi bod rheoliadau a wneir gan Weinidogion y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio darpariaethau trosiannol, dros dro ac arbedion yn ddarostyngedig i weithdrefn graffu yn unig os yw un o Weinidogion y Deyrnas Unedig o'r farn nad yw'n briodol iddynt beidio â chael eu heithrio rhag craffu seneddol.**

## Sut mae'r Bil yn effeithio ar gymhwysedd y Cynulliad i basio deddfau?

Fel mae pethau'n sefyll, dan y setliad datganoli presennol yng Nghymru a'r setliad newydd a ddaw i rym y flwyddyn nesaf, ni all y Cynulliad basio unrhyw ddeddfwriaeth sy'n anghydnaws â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Ar hyn o bryd mae gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd oruchafiaeth dros gyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig, felly byddai unrhyw Ddeddf neu ddeddfwriaeth o Gymru sy'n torri cyfraith yr Undeb Ewropeaidd y tu allan i gymhwysedd cyfredol y Cynulliad.


### Sut bydd hyn yn newid pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd?

Nododd y Goruchaf Lys, yn ei ddyfarniad ar **yr achos Erthygl 50** a ddygwyd gan Gina Miller ynghylch pa un ai a oedd gan y Senedd hawl i bleidleisio ar sbarduno Erthygl 50, ei farn ar yr hyn a fydd yn digwydd i gymhwysedd datganoledig pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn ei ddyfarniad, dywedodd y llys, pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, bydd cymhwysedd dros feysydd polisi datganoledig fel amaethyddiaeth, pysgodfeydd, yr amgylchedd a datblygiad economaidd yn mynd yn ôl yn awtomatig i'r deddfwrfeydd datganoledig oni bai bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn mynd ati i basio deddfwriaeth er mwyn atal hyn rhag digwydd. Mae'r Bil yn enghraifft o'r math hwn o ddeddfwriaeth.

Er enghraifft, wrth weithredu ei pholisi amaethyddol ar hyn o bryd, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddilyn holl reolau'r Undeb Ewropeaidd ar daliadau cymorth i ffermwyr, iechyd a lles anifeiliaid, diogelwch bwyd a diogelu'r amgylchedd, er bod amaethyddiaeth yn bwnc datganoledig. Mae hyn yn codi gan fod y Deyrnas Unedig, fel Aelod-wladwriaeth, wedi cytuno i'r Undeb Ewropeaidd bennu rheolau yn y meysydd hynny o bolisi amaeth. Pe bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn peidio â gwneud unrhyw beth, yna byddai'r holl bwerau hyn yn llifo'n ôl o Frwsel i Fae Caerdydd ar y diwrnod ymadael, a byddai'r Cynulliad yn gallu pasio deddfwriaeth ar gymorth i ffermydd, iechyd anifeiliaid ac ati, a allai osod rheolau gwahanol iawn i rai blaenorol yr Undeb Ewropeaidd. (Ni fyddai llechen gyfan gwbl lân i ddechrau, oherwydd mae gan y Deyrnas Unedig oblygiadau cyfreithiol rhyngwladol eraill, e.e. o ran lles anifeiliaid a'r amgylchedd). Dangosir hyn yn y ddau ffeithlun isod.


**Ble fydd y pwerau Ewropeaidd yn gorwedd ar ôl gadael yr UE?**

Un ffordd o edrych ar y pwerau y mae'r UE yn eu harfer ar hyn o bryd – fel gosod y Polisi Amaethyddol Cyffredin neu reolau ynghylch cyllid datblygu rhanbarthol – yw fel 'balwnau' wedi'u hangori ym Mrwsel. O edrych ar bethau fel hyn, bydd y balwnau hyn yn hwylio yn ôl i'r DU ar ddiwrnod gadael yr UE a bydd dewis o ran ble ddylen nhw fod yn glanio.



## Ble fyddai pwerau Ewropeaidd yn gorwedd ar ôl gadael yr UE heb Fil yr UE (Ymadael)?

Mae pob balŵn ym Mrwsel yn rhan o falŵn mwy o faint – y balŵn 'amaethyddiaeth', y balŵn 'mewnfudo' ac ati. Mae'r Goruchaf Lys wedi cadarnhau, heb Fil yr UE (Ymadael), y byddai balwnau llai Brwsel yn hwylio draw i'r DU ar ddiwrnod gadael yr UE ac yn chwyddo'r balwnau mawr hynny. Byddai'r balŵn 'mewnfudo' yn chwyddo balŵn yn Llundain yn unig. Byddai'r balŵn 'CAP' yn chwyddo'r balwnau yn y pedair prifddinas.





### Sut bydd y Bil yn effeithio ar y sefyllfa hon?

O dan Gymal 11 y Bil, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno cyfyngiad newydd ar gymhwysedd deddfwrfeydd datganoledig fel bod pob pŵer yn y lle cyntaf yn llifo'n uniongyrchol i Lundain o Frwsel yn hytrach nag i Gaerdydd, Caeredin a Belfast. Mae'r ffeithlun isod yn dangos hyn.

## Ble fyddai pwerau Ewropeaidd yn gorwedd ar ôl gadael yr UE os caiff Bil yr UE (Ymadael) ei basio fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd?

Byddai Bil yr UE (Ymadael) yn cadw'r holl 'falwnau grym' yn Llundain. Byddai modd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r seneddau datganoledig eraill, ddeddfu ym meysydd amaethyddiaeth, pysgodfeydd, yr amgylchedd ac ati o hyd, ond ni fyddai eu balwnau'n tyfu mewn maint – ni fyddai rhyddid iddynt greu deddfau newydd yn lle'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac ati. Dim ond Llywodraeth a Senedd y DU a fyddai'n cael gwneud hynny.



### Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol i allu'r Cynulliad i basio deddfau ar ôl y diwrnod ymadael?

I bob pwrpas, bydd Cymal 11 o'r Bil yn rhewi pwerau cyfredol y Cynulliad i basio deddfau ar ôl y diwrnod ymadael. Bydd y Cynulliad yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiad gan yr Undeb Ewropeaidd sy'n gymwys ar hyn o bryd, oherwydd nodir yn y Bil na fydd y Cynulliad yn gallu pasio unrhyw ddeddfwriaeth sy'n anghydnaws â chorff cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir gan y Bil. Yr unig eithriad fydd lle mae Gweinidogion (Cymru neu'r Deyrnas Unedig) wedi gwneud newidiadau i'r corff hwnnw o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, gan ddefnyddio'r pwerau gwneud rheoleiddio a roddir gan y Bil. Yn yr achos hwnnw, bydd y Cynulliad yn gallu dewis: bydd yn rhaid i'w ddeddfwriaeth naill ai fod yn gydnaws â'r gyfraith honno o'r Undeb Ewropeaidd a newidiwyd, neu â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd sydd heb ei newid, fel yr oedd yn union cyn y diwrnod ymadael. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'n bosibl na fydd ganddynt ddewis, oherwydd mae'n bosibl na fydd y gyfraith Undeb Ewropeaidd heb ei newid bellach yn hyfyw ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. Byddai hyn yn golygu bod cymhwysedd deddfwrfa wedi ei gyfyngu gan gamau a gymerwyd gan weithrediaeth.

Fel y crybwyllwyd uchod - gan Weinidogion y Deyrnas Unedig yn unig fydd y pŵer i newid cyfraith yr Undeb Ewropeaidd sy'n uniongyrchol berthnasol a droswyd yn gyfraith y Deyrnas Unedig gan y Bil. Mae hyn yn golygu y gall cymhwysedd y Cynulliad gael ei gyfyngu gan ddewisiadau a wneir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, er gwaetha'r ffaith bod y newidiadau hyn yn digwydd mewn meysydd polisi datganoledig yng Nghymru.

Gan ddilyn yr enghraifft amaethyddol, ni fydd y Cynulliad yn gallu pasio deddfau newydd ar gymorth i ffermydd, iechyd anifeiliaid a meysydd eraill lle mae'r Undeb Ewropeaidd yn gwneud y rheolau ar hyn o bryd, gan y bydd y pwerau hyn yn cael eu cadw'n ôl yn Llundain gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd yr un cyfyngiad yn berthnasol i Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, ond ni fydd Senedd y Deyrnas Unedig yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiad ar gyfer deddfau y mae'n dymuno eu pasio, boed ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, neu ar gyfer Lloegr yn unig.

Mae'r Bil yn darparu mecanwaith ar gyfer dadrewi neu ryddhau'r pwerau hyn i'r deddfwrfeydd datganoledig yn ddiweddarach drwy Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor. Byddai'r Gorchmynion hyn yn nodi manylion pwerau y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y gellir eu trosglwyddo'n ôl i'r deddfwrfeydd datganoledig. Byddai'n rhaid i'r Gorchmynion hyn gael eu pasio gan Ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig a chan y Cynulliad (yn achos Cymru) cyn iddynt ddod i rym.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi datgan y bydd rhewi'r pwerau hyn yn fesur trosiannol tra bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ar yr angen am fframweithiau a pholisïau cyffredin ar draws y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, ni osodir cymal machlud ar y cyfyngiad hwn yn y Bil. Yr unig ffordd o'i godi ar unrhyw adeg yn y dyfodol yw trwy fecanwaith Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor.


Mae'r ffeithlun isod yn dangos yr hyn sy'n digwydd o dan dri senario: cyfyngiadau'r Undeb Ewropeaidd ar y Cynulliad ar hyn o bryd, beth fyddai'n digwydd pe na bai cyfyngiad newydd yn ei le gan yr Undeb Ewropeaidd a beth fydd yn digwydd wrth gyflwyno'r cyfyngiad newydd gan y Bil. Defnyddir enghraifft o bolisi rhanbarthol.

# Y sefyllfa gyfreithiol os caiff Bil yr UE (Ymadael) ei basio fel y mae wedi'i eirio nawr

### Cyn gadael yr UE




### Ymadael â'r UE




### Y Bil

Mae'r Bil yn gosod cyfyngiad newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddai'r cyfyngiad newydd yn atal y Cynulliad rhag creu polisïau newydd ynghylch amaethyddiaeth, pysgodfeydd neu bolisïau rhanbarthol newydd i Gymru. Yn hytrach, byddai pwerau'r Cynulliad yn y meysydd hyn yn cael eu rhewi hyd nes i ywodraeth a Senedd y DU benderfynu a ddylid eu 'dadrewi'.

**A yw hyn yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad?**

- Ydy – fel mater o gonfensiwn cyfansoddiadol
- Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn bod y confensiwn yn gymwys i'r Bil
- Ond mae'r Goruchaf Lys wedi penderfynu nad yw'r 'gofyniad' am gydsyniad yn un cyfreithiol – h.y. ni all y Cynulliad fynd â Llywodraeth na Senedd y DU i'r llys os bydd yn anwybyddu barn y Cynulliad.

### Ar ôl ymadael â'r UE gyda Bil yr UE (Ymadael)




Ni fyddai gan y Cynulliad na Llywodraeth Cymru fwy o ryddid i lunio deddfau i Gymru ar bynciau datganoledig nag a oedd ganddynt cyn ymadael â'r UE. Yn lle cydymffurfio â chyfraith yr UE, byddai angen dilyn rheolau cyffredin sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth a Senedd y DU.

## Pam mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno'r cyfyngiad newydd hwn drwy'r Bil?

Yn ei thaflenni ffeithiau ar y Bil, dywed Llywodraeth y Deyrnas Unedig bod rheolau'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd yn creu ymagwedd gyson ar draws marchnad fewnol y Deyrnas Unedig. Dywed Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod hyn yn caniatáu i fusnesau ledled y Deyrnas Unedig fasnachu yng ngwledydd gwahanol y Deyrnas Unedig ar sail set gyffredin o reolau. Er enghraifft, mae'n rhaid i bob busnes ffermio yn y Deyrnas Unedig gydymffurfio â'r rheolau a bennir gan yr Undeb Ewropeaidd.


Dywed Llywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd rhewi cymhwysedd y deddfwrfeydd a llywodraethau datganoledig fel hyn yn gam trosiannol tra byddant yn cynnal trafodaethau gyda'r llywodraethau datganoledig ynghylch pa rannau o fframweithiau'r Undeb Ewropeaidd ar feysydd fel amaethyddiaeth, pysgodfeydd a Chymorth y Wladwriaeth a ddylai weithredu ar Lefel y Deyrnas Unedig a pha rannau allai gael eu datganoli i lefel is. Yr egwyddor y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud y bydd yn ei defnyddio i lywio'r trafodaethau hyn yw na ddylid creu unrhyw rwystr newydd i fasnachu o fewn y Deyrnas Unedig. Dywed Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bod yn disgwyl i'r trafodaethau hyn arwain at gynnydd mewn pwerau i'r llywodraethau datganoledig, ond nid yw wedi dweud a fydd hyn yn arwain at gynnydd mewn pwerau i'r deddfwrfeydd datganoledig, nac wedi egluro a fydd cymhwysedd deddfwrfeydd datganoledig yn cael ei leihau mewn unrhyw ffordd gan ddarnau eraill o ddeddfwriaeth Brexit a restrir yn Araith y Frenhines. Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi amserlen eto ar gyfer y trafodaethau hyn, eu fformat na'u cynnwys.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi gwrthod cynnwys y cyfyngiad newydd hwn ar y deddfwrfeydd a'r llywodraethau datganoledig yn y Bil. Er bod y ddau wedi cefnogi'r angen am reolau cyffredin mewn rhai meysydd polisi ar ôl y diwrnod ymadael, maent yn dadlau y dylai'r pwerau sydd ym meddiant Brwsel ar hyn o bryd lifo'n awtomatig yn ôl i Gaerdydd a Chaeredin, ac yna dylai pob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig gael llais cyfartal ar y meysydd lle mae angen fframweithiau cyffredin, ac ar beth ddylai'r fframweithiau cyffredin hynny fod, ym mhob achos. Mae Prif Weinidog Cymru wedi awgrymu y gellid gwneud hyn drwy Gyngor Gweinidogion y Deyrnas Unedig - yn debyg i'r mecanwaith

y mae Gweinidogion o bob Aelod-wladwriaeth yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gytuno ar reolau cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r math hwn o ymagwedd hefyd wedi ei gefnogi gan Bwyllgor Materion Allanol trawsbleidiol y Cynulliad. Yn ei **adroddiad ar y Papur Gwyn** ar y Bil, dywedodd y Pwyllgor y byddai'n 'bryderus' ynglŷn â Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhewi cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad - dros dro neu'n barhaol, a chytunodd â'r farn y dylai'r pwerau a arferir ar hyn o bryd gan gyrff yr Undeb Ewropeaidd, mewn meysydd datganoledig, ddod yn ôl yn awtomatig i Gymru ar ôl y diwrnod ymadael. Mynegodd y Pwyllgor ei obaith y byddai pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn cytuno ar fframweithiau cyffredin, gan weithredu fel partneriaid cyfartal yn hytrach na fframweithiau cyffredin yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn unig.

Mae'r ffeithlun cyntaf isod yn dangos sut byddai cynnig Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn gweithio. Mae'r ail yn dangos y gwahaniaeth rhwng eu hymagwedd arfaethedig a'r hyn a nodir yn y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd.





# YMADAWIAD Y DU Â'R UE A DATGANOLI YNG NGHYMRU

**Beth fydd y sefyllfa gyfreithiol ar ôl ymadael â'r UE?**


## Cyn gadael yr UE

Gall y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ond gwneud cyfreithiau ar gyfer Cymru sy'n cydymffurfio â chyfraith yr UE. Yn ôl rhai, byddai canlyniadau hyn yn dda, ond fel arall fyddai yn ôl pobl eraill.




## Ymadael â'r UE

Mae'r Goruchaf Lys wedi dyfarnu y bydd dileu cyfyngiadau'r UE, wedi i'r DU dynnu'n ôl o gytundebau'r UE, yn golygu newid yng nghymhwysedd y sefydliadau datganoledig, **oni bai** y caiff cyfyngiadau deddfwriaethol newydd eu cyflwyno (gweler llwybr 1). Yn **niffyg** cyfyngiadau newydd o'r fath, bydd ymadael â'r UE yn **gwella** cymhwysedd datganoledig (gweler llwybr 2).




Llwybr 1

Llwybr 2

### os caiff setliad datganoli Cymru ei adael fel y mae.

## Wedi ymadael â'r UE

Efallai na fydd rhai pwerau yn wahanol iawn yn ymarferol oherwydd cymalau cadw presennol rhag cymhwysedd. Fodd bynnag, gyda'r angen i gydymffurfio â chyfraith yr UE wedi mynd, bydd gan Gymru fwy o ryddid ynghylch cynnwys ei chyfreithiau.




### Os… caiff Bil yr UE (Ymadael) ei basio fel y mae

## Y Bil

Mae'r Bil yn gosod cyfyngiad newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddai'r cyfyngiad newydd yn atal y Cynulliad rhag creu polisïau newydd ynghylch amaethyddiaeth neu bysgodfeydd neu bolisïau rhanbarthol newydd i Gymru. Yn hytrach, byddai pwerau'r Cynulliad yn y meysydd hyn yn cael eu rhewi yn y meysydd hyn nes i Lywodraeth a Senedd y DU benderfynu a ddylid eu 'dadrewi'.

**A yw hyn yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad?**

- Ydy – fel mater o gonfensiwn cyfansoddiadol
- Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn bod y confensiwn yn gymwys i'r Bil
- Ond mae'r Goruchaf Lys wedi penderfynu nad yw'r 'gofyniad' am gydsyniad yn un cyfreithiol – h.y. ni all y Cynulliad fynd â Llywodraeth na Senedd y DU i'r llys os bydd yn anwybyddu barn y Cynulliad.


## Ar ôl gadael yr UE

Ni fyddai gan y Cynulliad na Llywodraeth Cymru fwy o ryddid i lunio deddfau i Gymru ar bynciau datganoledig nag a oedd ganddynt cyn ymadael â'r UE. Yn lle cyd-fynd â chyfraith Ewropeaidd, byddai angen dilyn rheolau cyffredin sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth a Senedd y DU.




## Ar ôl gadael yr UE – Cytuno ar Fframwaith Cyffredin Posibl

Yn hytrach na bod awdurdodau'r DU yn gosod rheolau cyffredin, gallai pedair cenedl yr UE gytuno ar reolau cyffredin ynghylch rhai pynciau – o bosibl yn cynnwys agweddau datblygu rhanbarthol ar amaethyddiaeth ac ati.



**Darpariaethau allweddol: Mae Cymal 11 yn rhoi cyfyngiad newydd ar gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac mae Atodlen 3 yn gwneud newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyflwyno cyfyngiad tebyg ar gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir ar gyfer Gweinidogion Cymru. Mae Atodlen 3 hefyd yn cynnwys y darpariaethau ar Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor y gellid eu defnyddio i drosglwyddo pwerau yn ôl i'r Cynulliad sydd wedi eu rhewi gan y Bil.**

## A fydd y Bil yn newid Deddf Llywodraeth Cymru mewn unrhyw ffordd arall?

Bydd cyfyngiad yr Undeb Ewropeaidd sy'n gymwys i Weinidogion Cymru yn cael ei ddiwygio fel bod Gweinidogion yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiad newydd â'r Cynulliad o dan y Bil. Y mae hefyd yn gwneud mân gywiriadau eraill sy'n deillio o ddiddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd; er enghraifft, dileu cyfeiriadau at etholiadau Senedd Ewrop.

Mae Atodlen 7A a 7B o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** yn nodi'r materion a gedwir yn ôl a'r cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad. Er enghraifft, mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb cyffredinol dros amaethyddiaeth, ond nid mewnforio ac allforio anifeiliaid y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Mae rhai o'r materion a gedwir yn ôl yn y Ddeddf yn cyfeirio at ddarnau o ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Er enghraifft, mae'r diffiniad o beth yw bwyd yn cyfeirio at ddarn o ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd. Bydd angen cywiro'r cyfeiriadau hyn gan na fyddant yn gwneud synnwyr pan fydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Nid yw'r Bil yn gwneud y newidiadau hyn ei hun ond mae pwerau a roddir i Weinidogion y Deyrnas Unedig drwy Gymal 7 o'r Bil yn ddigon eang i'w galluogi i wneud y newidiadau hyn pe baent yn dymuno gwneud hynny. Yn dechnegol, ni fyddai Gweinidogion y Deyrnas Unedig yn gorfod cael caniatâd y Cynulliad cyn gwneud hynny; ac ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud y newidiadau hyn. Gallai Gweinidogion y Deyrnas Unedig hefyd wneud y cywiriadau hyn gan ddefnyddio'r hyn a elwir yn 'Gorchmynion Adran 109'. Gellir cyflwyno'r Gorchmynion hyn gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru a rhaid i Senedd y Deyrnas Unedig a'r Cynulliad eu cymeradwyo.

Nodir yn **Nodiadau Esboniadol** y Bil nad yw'r newidiadau hyn wedi cael eu gwneud yn y Bil oherwydd bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu trafod y newidiadau hyn gyda'r gweinyddiaethau datganoledig cyn cwblhau ei ddull gweithredu.

## A fydd angen Cydsyniad Deddfwriaethol y Cynulliad ar y Bil?

O dan y Confensiwn Cydsyniad Deddfwriaethol, neu Gonfensiwn Sewel fel y'i gelwir hefyd, mae'r Deyrnas Unedig a'r Llywodraethau datganoledig wedi cytuno'n ffurfiol na ddylai Senedd y Deyrnas Unedig fel mater o drefn ddeddfu mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig heb ganiatâd y deddfwrfeydd datganoledig. Nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol y gellid ei orfodi drwy'r llysoedd, ond mae'n gonfensiwn gwleidyddol pwysig. Cadarnhaodd yr **Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio caniatâd deddfwriaethol y deddfwrfeydd datganoledig ar y Bil. Mae'r **Nodiadau Esboniadol** i'r Bil yn nodi'r darpariaethau y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio caniatâd deddfwriaethol ar eu cyfer:

- Cadw a throsi cyfraith yr Undeb Ewropeaidd, gan y bydd rhai o'r cyfreithiau mewn meysydd cymhwysedd datganoledig;
- Y cyfyngiad newydd ar y deddfwrfeydd datganoledig a'r llywodraethau;

– Y pwerau i Weinidogion datganoledig wneud cywiriadau, gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a'r cytundeb tynnu'n ôl; a

– Diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd, gan fod cyfeiriadau ato wedi eu cynnwys yn y setliadau datganoledig.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad i'w ystyried. **Nododd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones,** y bydd Llywodraeth Cymru o blaid argymell i'r Cynulliad ei fod yn gwrthod ei ganiatâd oni bai bod newidiadau yn cael eu gwneud i'r Bil.

## Beth yw'r amserlen ar gyfer y Bil?

Mae disgwyl i'r Bil gael yr hyn a elwir yn 'ail ddarlleniad' ar 7 a 11 Medi yn Nhŷ'r Cyffredin. Disgwylir i'r Bil gael ei drafod gan 'Bwyllgor y Tŷ Cyfan', h.y. ar lawr Tŷ'r Cyffredin yn hytrach na phwyllgor Bil llai o faint, yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd. Disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi ym mis Rhagfyr a chael ei basio erbyn y Pasg y flwyddyn nesaf. Bydd angen pasio'r Bil erbyn canol y flwyddyn nesaf i roi digon o amser i Weinidogion y Deyrnas Unedig a Gweinidogion datganoledig wneud cywiriadau i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir drwy'r Bil cyn y diwrnod ymadael. Cewch ragor o wybodaeth am sut mae Bil yn mynd drwy San Steffan a'i gamau gwahanol ar **wefan Senedd y Deyrnas Unedig.**

## Beth oedd yr ymateb cychwynnol i'r Bil?

Pan gyflwynwyd y Bil, **dywedodd** yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, David Davis, ei fod yn golygu:

> *...we will be able to exit the European Union with maximum certainty, continuity and control.*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd **wedi datgan hefyd** fod y Bil yn:

> *...one of the most significant pieces of legislation that has ever passed through Parliament and is a major milestone in the process of withdrawal from the European Union.*

Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, a Phrif Weinidog yr Alban **ddatganiad ar y cyd ar y Bil**, gan feirniadu cynnwys y Bil yn llym. Dywedasant:

> *...mae'n ymgais hyf i fachu pŵer, yn ymosodiad ar egwyddorion craidd datganoli, ac yn peryglu ansefydlogi'n heconomïau.*
>
> *Mae'n dwy lywodraeth - a llywodraeth y DU - yn cytuno bod angen cyfres o gyfreithiau ymarferol ar draws y DU ar ôl ymadael â'r UE. Rydym hefyd yn cydnabod y gall fod angen fframweithiau cyffredin ar draws y DU yn lle cyfreithiau'r UE mewn rhai meysydd. Ond rhaid cyflawni hyn drwy drafodaethau a chytundeb, nid gorfodaeth.*

**Dywedodd** Prif Weinidogion Cymru a'r Alban hefyd:

> *Nid yw Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn dychwelyd pwerau o'r UE i'r gweinyddiaethau datganoledig, fel yr addawyd. Yn hytrach, mae'n eu dychwelyd i Lywodraeth y DU yn unig, ac yn gosod cyfyngiadau newydd ar Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.*

Yn ei ymateb i'r Bil, **dywedodd Alun Cairns,** Ysgrifennydd Gwladol Cymru:

> *…bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â busnesau, awdurdodau lleol, y trydydd sector, Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn gwrando arnynt, er mwyn gwneud yn siŵr bod y broses o adael yr UE yn gweithio i Gymru ac i'r DU i gyd.*

**Dywedodd David Rees AC**, Cadeirydd Pwyllgor Materion Allanol y Cynulliad:

> *Dylai'r Bil hwn ymwneud â'r camau cyfreithiol y mae angen eu cymryd i adael yr Undeb Ewropeaidd.*
>
> *[…]*
>
> *Ond ymddengys nad yw'r Bil hwn yn ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeaidd yn unig. Ar y darlleniad cyntaf, mae'n ymddangos fel petai Llywodraeth y DU yn defnyddio gadael yr Undeb Ewropeaidd i atal y Cynulliad rhag defnyddio'r pwerau sydd ganddo ar hyn o bryd ar ôl inni adael yr Undeb Ewropeaidd. Gall hefyd baratoi'r ffordd i Lywodraeth y DU osod polisïau ar gyfer Cymru mewn meysydd sydd wedi'u datganoli ar hyn o bryd - er enghraifft mewn amaethyddiaeth a physgodfeydd. Os, ar ôl dadansoddiad pellach, rydym yn dod i'r casgliad bod hyn yn wir, yna byddai'n bryder mawr.*

Ysgrifennodd Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol y Cynulliad, Huw Irranca Davies AC, **lythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** ar 31 Gorffennaf 2017 yn amlinellu barn gychwynnol ei Bwyllgor ar y Bil. Mae'r llythyr yn amlinellu pryder y Pwyllgor:

- y bydd Cymal 11 o'r Bil yn gosod cyfyngiadau ar y deddfwrfeydd datganoledig rhag pasio deddfau sy'n anghydnaws â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, ond na fydd yn cyfyngu yn yr un modd ar allu Senedd y Deyrnas Unedig i basio deddfau ar gyfer Lloegr;
- bod y Bil yn pennu i'r Cynulliad sut dylai graffu ar unrhyw reoliad a ddygir ymlaen gan Weinidogion Cymru o dan y Bil;
- ynghylch y pwerau a roddir i Weinidogion yn y Bil, ac a ydynt mor eglur ag y gallent fod, ynghylch a ellid defnyddio'r pwerau'n amhriodol fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, ac; ynghylch priodoldeb Gweinidogion y Deyrnas Unedig a Gweinidogion Cymru yn cael pwerau i ddiwygio Deddfau'r Cynulliad yn ôl rheoliadau;
- ynghylch y cwmpas gwahanol o bwerau a roddir i Weinidogion Cymru a'r Deyrnas Unedig a;
- sicrhau na fydd hawliau ac egwyddorion sylfaenol yn cael eu colli i ddinasyddion y Deyrnas Unedig drwy beidio â throsi'r Siarter Hawliau Sylfaenol i gyfraith y Deyrnas Unedig.